Ein Sir y Fflint, Ein Dyfodol

# Gosod y Gyllideb ar gyfer 2024/25

Bob blwyddyn, mae pob Cyngor ar draws y DU yn gorfod gosod cyllideb sy'n cydbwyso'r cyllid y maent yn ei dderbyn i ddarparu gwasanaethau gyda'r hyn y maent yn ei wario. Dyma'r gyfraith!

Mae Cyngor Sir y Fflint yn perfformio'n dda gydag ychydig o arian. Fesul pen o'r boblogaeth, mae wedi'i sgorio fel rhif 20 o 22 o Gynghorau yng Nghymru am yr arian mae'n ei gael i ddarparu gwasanaethau.

Ers degawd a mwy, mae'r cyllid y mae'r Llywodraeth yn ei roi i Gynghorau wedi lleihau a bob blwyddyn, mae'n mynd yn fwyfwy anodd i wneud mwy o arbedion.

**Ers 2008, mae Cyngor Sir y Fflint wedi torri £110 miliwn ar ei wariant trwy wneud pethau fel:**

- Gweithredu llai o adeiladau Cyngor
- Cyflogi llai o bobl
- Torri cyllidebau gwasanaeth
- Gweithio gyda phartneriaid i gadw costau i lawr
- Diogelu gwasanaethau trwy wneud pethau'n wahanol
- Adolygu ffioedd a thaliadau bob blwyddyn

**Nid oes llawer ar ôl i'w dorri a gallai hyn olygu y bydd rhagor o doriadau gwario gan y Llywodraeth yn fwy heriol fyth. Heb rhagor o gyllid, bydd angen gwneud penderfyniadau anodd er mwyn darparu cyllideb gytbwys a chyfreithlon.**

£32m
- £18m
**£14m**

## Pa mor fawr yw'r bwlch?

**£32m -** y bwlch cychwynnol yn ein cyllideb

**£18m -** datrysiadau posibl a nodwyd i bontio'r bwlch gan gynnwys cynnydd a ragwelir o ran cyllid o 3.1% gan Lywodraeth Cymru

**£14m -** y bwlch sy'n weddill a ragwelir ym mis Medi 2023

## A fydd y bwlch yn cynyddu?

Mae'r Cyngor yn parhau i wynebu nifer o risgiau sydd â'r potensial o gynyddu'r bwlch.

**Dyfarniadau cyflog cenedlaethol**

**Cynnydd o ran chwyddiant**

**Pwysau cynyddol ar wasanaethau**

- Digartrefedd
- Gofal cymdeithasol
- Targedau gwastraff ac ailgylchu a gaiff eu gosod yn genedlaethol

**Costau cynyddol gan bartneriaid allanol**

- Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
- Gwasanaeth Crwneriaid Gogledd Cymru
- Darparwyr gofal cymdeithasol

## Pontio'r bwlch yn y gyllideb

Mae'n rhy fuan i ddweud yn bendant pa benderfyniadau fydd angen eu gwneud i bontio'r bwlch yn y gyllideb.

Mae llawer yn dibynnu ar gyhoeddiad Llywodraeth Cymru am y gyllideb.

Dros yr haf, cyflwynwyd dewisiadau posibl i leihau gwariant a chynyddu incwm ac ar 19 Medi 2023 cawsant eu hatgyfeirio gan Gabinet y Cyngor i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu i'w hadolygu.

Cydnabyddir bod Llywodraeth Cymru yn wynebu ei sefyllfa heriol ei hun o ran y gyllideb, ond mae Sir y Fflint, a phob Cyngor yng Nghymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn parhau i gyflwyno achos am setliad gwell o ran y gyllideb.

## Beth sy'n digwydd nesaf?

| | |
|---|---|
| Hyd/Tach 2023 | Aelodau Etholedig i graffu ar ddewisiadau ar gyfer gostwng cyllideb gwasanaethau, a'u hystyried |
| 20 Rhag 2023 | Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei setliad dros dro ar gyfer y gyllideb (grant) |
| 16 Ion 2024 | Cabinet Cyngor Sir y Fflint yn cyfarfod i drafod cynigion ar gyfer pontio'r bwlch yn y gyllideb |
| 11 Ion 2024 | Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol |
| 20 Chwef 2024 | Y Cyngor llawn yn cyfarfod i gytuno'n ffurfiol ar y gyllideb a gosod Treth y Cyngor ar gyfer 2024/25 |
| 1 Maw 2024 | Y setliad terfynol ar gyfer y gyllideb yn cael ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru |

Dyddiad cyhoeddi: Rhagfyr 2023

Cyngor Sir y Fflint
Flintshire County Council